



## POLISI AMDDIFFYN PLANT

### YSGOL Llandygai

#### Nôd

Mae gan pob ysgol ddyletswydd fugeiliol tuag at ei disgyblion, maent yn chwarae rhan bwysig i atal camdriniaeth ac esgeulustod drwy greu a chynnal awyrgylch ddiogel i blant a phobl ifanc.

#### Egwyddorion.

Mae gan athrawon a staff ategol yr ysgol swyddogaeth bwysig i adnabod arwyddion o gamdriniaeth am esgeulustod posibl a chyfeirio'u pryderon at y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae pob plentyn yn haeddu'r cyfle i gyrraedd ei botensial llawn. Dylai ysgolion sicrhau eu bod yn chwarae rhan i alluogi pob disgybl i gyflawni'r canlynol: -

- Bod mor iach ag y mae modd yn gorfforol ac yn feddyliol
- Cael y budd pennaf o gyfleoedd addysgol o ansawdd da
- Teimlo'u bod yn cael eu caru a'u gwerthfawrogi, a'u cynnal gan rwydwaith ddibynadwy a chariadus o fewn yr ysgol
- Dod yn gymwys i edrych ar eu hól eu hunain a delio gyda byw bob dydd
- Bod â delwedd gadarnhaol ohonynt eu hunain ac ymdeimlad diogel o hunaniaeth, gan gynnwys hunaniaeth, diwylliant a hil.
- Datblygu sgiliau rhyngbersonol da a hyder mewn sefyllfaoedd cymdeithasol.

#### Diffiniadau o gam-drin ac esgeuluso plant

Gall rhywun gam-drin neu esgeuluso plentyn drwy beri niwed iddo, neu drwy fethu gweithredu i atal niwed.

Gall plentyn neu berson ifanc hyd at 18 oed ddiodef camdriniaeth neu esgeulustod a bod angen eu hamddiffyn drwy Cynllun Amddiffyn Plant Rhyngasiantaethol Gwynedd.

1. **Camdrin corfforol** - taro, ysgwyd, taflu, gwenwyno, llosgi neu sgaldio, boddi, mygu neu achosi niwed corfforol mewn unrhyw ffordd arall i blentyn.  
(Gall niwed corfforol hefyd gael ei achosi pan fydd rhiant neu ofalydd yn ffugio symptomau iechyd.)
2. **Cam-drin emosiynol** - trin plentyn yn wael yn barhaus sy'n achosi effeithiau drwg difrifol a pharhaus i ddatblygiad emosiynol plentyn.
3. **Cam-drin rhywiol** - gorfodi plentyn neu berson ifanc i gymryd rhan mewn gweithrediad rhywiol, p'un ai yw'r plentyn yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd ai peidio.
4. **Esgeulustod** - methiant parhaus i gyfarfod ag anghenion corfforol a/neu seicolegol sylfaenol plentyn.

Cwynion yn erbyn staff

Mae'r Corff Llywodraethol wedi mabwysiadu Côd Ymarfer Disgyblu Awdurdod Addysg Gwynedd.

Wrth ddelio â chwynion yn erbyn aelodau o staff yr ysgol dylid bob amser fod yn ymwybodol o ofynion y côd ymarfer disgyblu.

Nid yw hyn yn rhagdybio mewn unrhyw ffordd fod yr aelod o staff yn euog pan wneir cwyn yn ei (h)erbyn. Mae'n hytrach yn cydnabod y gall cwyn arwain at weithredu'r côd ymarfer disgyblu. Rhaid felly sicrhau nad yw'r modd yr

ymdrinir â chwyn yn creu problemau pe byddai'n rhaid dilyn y côd ymarfer ac nad yw chwaith yn rhagfarnu unrhyw achos yn erbyn neu o blaid y person y gwnaed cwynion yn ei (h)erbyn.

Mae'r Côd Ymarfer yn nodi y dylai unrhyw gwynion yn erbyn aelod o staff gael eu trosglwyddo i'r pennaeth.

Dylai unrhyw gwynion yn erbyn y Pennaeth gael eu trosglwyddo yn syth i Awdurdod Addysg Gwynedd. Hysbysir Cadeirydd y Corff Llywodraethol ac hysbysir Swyddog o'r Awdurdod Addysg. Bydd Awdurdod Addysg Gwynedd yn cyfeirio'r honiad at y Tim Plant.

Ni ddylai'r Corff Llywodraethol drafod unrhyw gwyn a wneir am aelod o staff yr ysgol. Byddai gwneud hynny yn rhagfarnu aelodau'r corff ac yn debygol o'u gwneud yn anghymwys i wrando achos disgyblu, a gwranddo apel, pe byddai gofyn o'r fath yn deillio o ymchwiliad y Pennaeth neu'r Cadeirydd. Mae'n bwysig fodd bynnag adrodd i'r corff am faterion perthnasol sy'n codi ac mae'r Côd Ymarfer yn delio â hyn. Bydd y Swyddog Addysg sy'n cefnogi'r drefn hefyd yn gallu cynnig cyngor perthnasol.

Os yw'r ymchwiliad yn canfod tystiolaeth sy'n ymwneud â'r isod bydd yn rhaid i unrhyw ymchwiliad roi ystyriaeth briodol i'r trefniadau cytunedig sydd yn bodoli mewn perthynas â hwy:

- Athrawon yn ddiffygiol yn eu perfformiad gwaith,
- Camdrin plant,
- Aelodau o staff yn gaeth i gyffuriau neu alocohol,
- Afreoleidd-dra ariannal,

Bydd y Corff Llywodraethol yn sicrhau drwy'r Cydlynnydd Amddiffyn Plant/ Pennaeth fod Protocol Prosesau Mewnol yr ysgol yn cael ei gweithredu'n llawn yn unol â'r canllawiau ar gyfer athrawon a staff ategol yr ysgol (gweler Atodiad 1).

#### **Personau cyfrifol Amddiffyn Plant:**

#### **Swyddog Diogelu Plant: Mrs Delyth Lloyd Griffiths**

**Adran Addysg Cyngor Gwynedd, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH**

**01286 679007**

**07977504344**

**delythgriffiths@gwynedd.llyw.cymru**

Cadeirydd y Llywodraethwyr: Parch J. Matthews

Aelod wedi ei enwebu o'r Llywodraethwyr i gefnog'r Cadeirydd: Mr Dyfed Henry Jones

Cydgysylltydd o blith uwch reolwyr yr ysgol / Pennaeth: **Mr Elfed Morgan Morris- Pennaeth**

**Mrs Emma Vaughan Davies – Dirprwy-Bennaeth**

**Mrs L.W Pritchard – Cydlynnydd CS**

Bydd y 'person cyfrifol' yn sicrhau bod holl staff sydd yn debygol o ddod i gysylltiad â'r disgyblion yn ymwybodol o broses mewnol yr ysgol yng nghyd-destun Amddiffyn Plant.

#### **Hyfforddiant**

Bydd y Corff Llywodraethol yn sicrhau fod aelodau o staff yr ysgol yn cael mynediad i hyfforddiant yn y maes Amddiffyn Plant.

#### **Cysylltiad â'r Cwricwlwm**

Yn unol â chanllawiau Addysg Personol a Chymdeithasol sicrheir fod elfennau o'r maes Amddiffyn Plant yn cael ei gynnwys fel rhan ganolog o'r cwricwlwm drwy sicrhau profiadau diddorol ac amrywiol i blant o ran tynnu sylw at sefyllfaoedd peryglus, hawliau'r unigolyn, perthynas ag eraill ac ymateb yn briodol mewn amrywiol sefyllfaoedd.

Adolygir y polisi hwn yn flynyddol.

Mabwysiadwyd **15/03/04 Adolygwyd:** Gwanwyn 2012

Cadeirydd y Llywodraethwyr:- Parch John Matthews  
Pennaeth:- C Hughes

Adolygwyd: Chwefror 2013; 2014, 2015

Cadeirydd: Parch J Matthews

Pennaeth: C Hughes

Adolygwyd: Gwanwyn 2016

Cadeirydd: Parch J Matthews

Pennaeth: Mr Elfed Morgan Morris

Adolygwyd: Gwanwyn 2017

Cadeirydd: Parch J Matthews

Pennaeth: Mr Elfed Morgan Morris

## **PROTOCOL YSGOL LLANDYGAI - AMDDIFFYN PLANT**

### **Canllawiau i Athrawon**

Os yw disgybl yn dweud wrthych eu bod nhw neu ddisgybl arall yn cael eu camdrin yna:

- 1) Dangoswch eich bod wedi clywed a deall yr hyn y maent wedi ei ddweud, ac eich bod yn cymryd yr honiad o ddifrif.
- 2) Anogwch y plentyn i siarad, ond heb bromptio na gofyn cwestiynau arweiniol
  - peidiwch a torri ar ei draws
  - peidiwch a gwneud i'r plentyn ailadrodd
  - unwaith yn unig dylai staff yr ysgol holi'r plentyn
- 3) Esboniwch y camau y mae'n rhaid i chwi eu cymryd mewn ffordd sydd yn addas i oed a dealltwriaeth y disgybl.
  - dweud wrth y pennaeth
- 4) Peidiwch addo a chadw'r hyn ddywedwyd wrthych yn gyfrinach gan fod gennych gyfrifoldeb i ddatgelu gwybodaeth i'r rhai sydd ag angen gwybod.
- 5) Gwnewch nodyn o'r dyddiad, yr amser, y fan, a'r bobl oedd yn bresennol gan ei arwyddo.
- 6) Dylid cyflwyno eich adroddiad/pryderon i sylw'r pennaeth.
- 7a) Mewn achosion sy'n ymwneud a **staff** yr ysgol heblaw y pennaeth mae disgwyl i athrawon gyflwyno eu hadroddiad/pryderon i'r pennaeth.
- 7b) Mewn achosion sy'n ymwneud a **phennaeth** yr ysgol mae disgwyl i athrawon gysylltu a'r Swyddog Addysg sy'n gwasanaethu'r ysgol er mwyn cyfeirio'r achos.
- 8) Yn ddibynnol ar ddifrifoldeb yr achos swyddogaeth y pennaeth/swyddog amddiffyn yw penderfynnu os oes angen cyfeirio'r achos i'r Gwasanaethau Cymdeithasol.
- 9) Os oes angen cyngor pellach, dylai'r Pennaeth neu'r Dirprwy gysylltu â'r
  - i) Swyddog Addysg Ardal
  - ii) Swyddog Lles Addysg

### **Amddiffyn Plant ar gyfer Rhieni – Llawlyfr yr Ysgol**

#### **Nôd**

Mae gan pob ysgol ddyletswydd fugeiliol tuag at ei disgyblion, maent yn chwarae rhan bwysig i atal camdriniaeth ac esgeulustod drwy greu a chynnal awyrgylich ddiogel i blant a phobl ifanc.

### **Egwyddorion.**

Mae gan athrawon a staff ategol yr ysgol swyddogaeth bwysig i adnabod arwyddion o gamdriniaeth am esgeulustod posibl a chyfeirio'u pryderon at y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae pob plentyn yn haeddu'r cyfle i gyrraedd ei botensial llawn. Dylai ysgolion sicrhau eu bod yn chwarae rhan i alluogi pob disgybl i gyflawni'r canlynol: -

- Bod mor iach ag y mae modd yn gorfforol ac yn feddyliol
- Cael y budd pennaf o gyfleoedd addysgol o ansawdd da
- Teimlo'u bod yn cael eu caru a'u gwerthfawrogi, a'u cynnal gan rwydwaith ddibynadwy a chariadus o fewn yr ysgol
- Dod yn gymwys i edrych ar eu hól eu hunain a delio gyda byw bob dydd
- Bod â delwedd gadarnhaol ohonynt eu hunain ac ymdeimlad diogel o hunaniaeth, gan gynnwys hunaniaeth, diwylliant a hil.
- Datblygu sgiliau rhyngbersonol da a hyder mewn sefyllfaoedd cymdeithasol.

### **Diffiniadau o gamdrin ac esgeuluso plant**

Gall rhywun gamdrin neu esgeuluso plentyn drwy beri niwed iddo, neu drwy fethu gweithredu i atal niwed. Gall plentyn neu berson ifanc hyd at 18 oed ddiodef camdriniaeth neu esgeulustod a bod angen eu hamddiffyn drwy Cynllun Amddiffyn Plant Rhyngasiantaethol Gwynedd.

1. **Camdrin corfforol** - taro, ysgwyd, taflu, gwenwyno, llosgi neu sgaldio, boddi, mygu neu achosi niwed corfforol mewn unrhyw ffordd arall i blentyn.  
(Gall niwed corfforol hefyd gael ei achosi pan fydd rhiant neu ofalydd yn ffugio symptomau iechyd.)
2. **Cam-drin emosiynol** - trin plentyn yn wael yn barhaus sy'n achosi effeithiau drwg difrifol a pharhaus i ddatblygiad emosiynol plentyn.
3. **Cam-drin rhywiol** - gorfodi plentyn neu berson ifanc i gymryd rhan mewn gweithrediad rhywiol, p'un ai yw'r plentyn yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd ai peidio.
4. **Esgeulustod** - methiant parhaus i gyfarfod ag anghenion corfforol a/neu seicolegol sylfaenol plentyn.

### **Dulliau Gweithredu**

Bydd y Corff Llywodraethol yn sicrhau drwy'r Cydlynnydd Amddiffyn Plant/ Pennaeth fod Protocol Prosesau Mewnol yr ysgol yn cael ei gweithredu'n llawn yn unol â'r canllawiau ar gyfer athrawon a staff ategol yr ysgol (gweler Atodiad 1).

### **Personau cyfrifol Amddiffyn Plant:**

#### **Swyddog Diogelu Plant: Mrs Delyth Lloyd Griffiths**

**Adran Addysg Cyngor Gwynedd, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH**

**01286 679007**

**07977504344**

**delythgriffiths@gwynedd.llyw.cymru**

Cadeirydd y Llywodraethwyr:Parch J.Matthews

Is Gadeirydd: Mrs Mair Leverett

Cydgysylltydd o blith uwch reolwyr yr ysgol / Pennaeth: **Mr Elfed Morgan Morris- Pennaeth**  
**Mrs Emma Vaughan Davies – Dirprwy-Bennaeth**  
**Mrs L.W Pritchard – Cydlynnydd CS**

Bydd y 'person cyfrifol' yn sicrhau bod holl staff sydd yn debygol o ddod i gysylltiad â'r disgyblion yn ymwybodol o broses mewnol yr ysgol yng nghyd-destun Amddiffyn Plant.

### **Hyfforddiant**

Bydd y Corff Llywodraethol yn sicrhau fod aelodau o staff yr ysgol yn cael mynediad i hyfforddiant yn y maes Amddiffyn Plant.

### **Cysylltiad â'r Cwricwlwm**

Yn unol â chanllawiau Addysg Personol a Chymdeithasol sicrhau fod elfennau o'r maes Amddiffyn Plant yn cael ei gynnwys fel rhan ganolog o'r cwricwlwm drwy sicrhau profiadau diddorol ac amrywiol i blant o ran tynnu sylw at sefyllfaoedd peryglus, hawliau'r unigolyn, perthynas ag eraill ac ymateb yn briodol mewn amrywiol sefyllfaoedd.